Cofnodion y **Pwyllgor Amwynderau** a gynhaliwyd yn yr
Hen Lys, Sgwâr Sant Pedr, Rhuthun, nos Lun, 2 Mawrth 2020 am 7:00p.m.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Keiran Allsopp-Robson, Jim Bryan, Gavin Harris, Menna Jones, Anne Roberts, Dave Snape a Heather Williams. Ynghyd ag un aelod o'r cyhoedd.

71. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

72. DATGAN BUDDIANNAU
Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

73. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL
PENDERFYNWYD*: cadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Amwynderau a gynhaliwyd ar 3 Chwefror 2020 yn gywir.*

74. MATERION YN CODI
Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

75. ADOLYGU MEINCIAU CYHOEDDUS YN RHUTHUN
Cytunodd yr aelodau pa ardaloedd y byddent yn tynnu lluniau meinciau, ac anfon y ffotograffau at y Cadeirydd a'r Clerc.
PENDERFYNWYD*: cwblhau adolygiad ffotograffig y meinciau yn Rhuthun ac ystyried y canlyniadau yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Amwynderau.*

76. PRIS PLANHIGION Y BASGEDI CROG
Gofynnwyd i'r aelodau ystyried y rhestr brisio a ddarparwyd gan Blanhigion Glyndwr.
PENDERFYNWYD*: derbyn pris darparu'r planhigion ar gyfer y basgedi crog gan Blanhigion Glyndwr ar gost o £3,214.80 + TAW.*

77. PRIS AM DDYFRIO'R BASGEDI CROG
Gofynnwyd i'r aelodau ystyried y rhestrau prisio dyfrio'r basgedi crog a gyflwynwyd gan J & C Brimble a Chwmni Budd Cymunedol Llanfwrog. Yn dilyn trafodaeth
PENDERFYNWYD*: derbyn pris dyfrio'r basgedi crog gan Gwmni Budd Cymunedol Llanfwrog ar gost o £6,289.50.*

78. PRIS TORRI GLASWELLT
Gofynnwyd i aelodau ystyried y rhestrau prisio torri glaswellt a gyflwynwyd gan Sherratt Landscape Contractors Ltd a Chwmni Budd Cymunedol Llanfwrog.
PENDERFYNWYD*: derbyn y pris torri glaswellt gan Gwmni Budd Cymunedol Llanfwrog ar gost o £3,328.56.*

79. PARC SGLERFYRDDIO
Gofynnwyd i'r aelodau ystyried y camau gweithredu sy'n ofynnol i lanhau'r parc sglefrfyrddio yn dilyn y llifogydd diweddar.
PENDERFYNWYD*: gofyn am ddyfynbrisiau jetolchi'r ardal.*

80. TÎM TREF TACLUS
Trefnwyd ymgyrch casglu sbwriel blynyddol y dref ddydd Sadwrn, 7 Mawrth, gyda chyfarfod i ail-lansio Tîm Tref Taclus Rhuthun am hanner dydd yn yr Hen Lys, gyda chawl, paned a chacennau.
PENDERFYNWYD*: nodi'r wybodaeth.*

81. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF
PENDERFYNWYD*: mai dyddiad y cyfarfod nesaf y Pwyllgor fyddai nos Lun, 6 Ebrill 2020 am 7pm.*